Sarah Rees

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Fel gwirfoddolwr gydol oes, rwy'n awyddus i gyfrannu fy sgiliau at fwrdd CGGC. Rwy'n dod â 15 mlynedd o brofiad o arweinyddiaeth ar draws elusennau ac eiriolaeth, gydag ymrwymiad cryf i gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a gweithredu a arweinir gan gymunedau.

Fel Pennaeth Oxfam Cymru, rwy'n arwain ymgyrchoedd trawsnewidiol, fel *Cymru sy'n Gofalu am Bobl a'r Blaned, sy'n dangos fy ngallu i gyflawni mentrau strategol. Mae fy mhrofiad o lywodraethu yn cynnwys rheoli cyllideb y British Council a bod yn gadeirydd pan oeddwn yn RhCM Cymru. Gallai fy sgiliau mewn trosolwg ariannol a gwneud penderfyniadau strategol, a'm dealltwriaeth o anghenion elusennau amrywiol, helpu CGGC i wynebu heriau'r sector yn y dyfodol.

Gwnaeth ymgyrchu ar *But Not Maternity a *March of the Mummies, fy mharatoi ar gyfer hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a hawliau menywod, a gwnaeth fy noniau gefnogi anghenion ein cymunedau drwy wirfoddoli. Yn ddiweddar, rwyf wedi ennill Diploma ôl-radd yn y Gyfraith, sy'n ychwanegu gwybodaeth gyfreithiol at fy set o sgiliau.

Er fy mod yn fam brysur i ddau o blant, rwy'n ymgeisio gan fod gan CGGC yr un gwerthoedd â mi. Rydym yn wynebu cyfnod anodd yn y sector gwirfoddol, a gallaf ad-dalu'r cymorth a gefais gan CGGC i helpu ein sector i symud ymlaen a llunio cymdeithas decach i bob un ohonom ni sy'n galw Cymru yn gartref.

*Saesneg yn unig